



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaeth 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bostl: brechfaconnection@pins.gsi.gov.uk

Western Power Distribution (De
Cymru) plc

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020016

Dyddiad: 25 Chwefror 2016

Annwyl Syr/Madam

Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) –Rheol 8(3), Rheol 17 ac a89(3) ac a102A Deddf Cynllunio 2008 (DC 2008)

Cais gan Western Power Distribution (De Cymru) plc am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Cyswilt Coedwig Brechfa

Penderfyniad gweithdrefnol

Yn y gwrandawriad caffaeliad gorfodol ar 10 Chwefror 2016, yn dilyn trafodaethau ynghylch cyfathrebu rhwng yr Ymgeisydd a Phersonau yr Effeithir Arnynt, gofynnais am weld yr holl ohebiaeth rhwng y partion. Cytunodd yr Ymgeisydd i ddarparu hyn. Yn ogystal, cytunodd Mr Iwan Jones i'w ddarparu mewn perthynas â'r partion y mae ef yn gweithredu ar eu rhan. Trafodwyd materion cyfrinachedd a chyfyngiadau golygu yn y gwrandawriad. Ymhellach i'r cais hwn, ysgrifennodd yr Ymgeisydd ar 17 Chwefror 2016 at yr Arolygiaeth Gynllunio gan godi nifer o bryderon ymarferol a masnachol ynghylch cyfrinachedd wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath. O ganlyniad i'r pryderon hyn, awgrymodd yr Ymgeisydd y dylid darparu tabl wedi'i ddiweddarau'n llawn sy'n rhoi manylion yr holl ohebiaeth o'r fath a natur gohebiaeth o'r fath rhwng partion.

Cyflwynwyd y ddogfen hon i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 19 Chwefror 2016 ac fe'i derbyniwyd i'r archwiliad a'i chyhoeddi ar ein gwefan [REP5-031]:

http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN020016/Events/Deadline%20-%202018-02-2016/BFC_Vol_09.18.1A%20Updated%20Land%20Owner%20Engagement%20Table.pdf

Os bydd unrhyw barti yn dymuno gwneud sylwadau ar y cyflwyniad hwn, gofynnir iddynt wneud hynny erbyn **Dyddiad Cau 6, sef 17 Mawrth 2016**. Dylid cyflwyno sylwadau pellach ynghylch y sylwadau hyn erbyn **Dyddiad Cau 7, sef 31 Mawrth, 2016**.

Ar ôl ystyried llythyr yr Ymgeisydd dyddiedig 17 Chwefror 2016, y cyflwyniadau dyddiedig 18 Chwefror 2016 a'r tabl a gyflwynwyd ar 19 Chwefror 2016, nid wyf bellach o'r farn bod angen i mi dderbyn yr holl ohebiaeth yn ymwneud â'r holl Bersonau yr Effeithir Arnynt. Rwyf nawr yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu gohebiaeth rhwng yr Ymgeisydd a Phersonau yr Effeithir Arnynt sydd heb gytuno ar Benawdau'r Telerau â'r Ymgeisydd hyd yn hyn. Gofynnir iddynt wneud hynny erbyn **Dyddiad Cau 6, sef 17 Mawrth 2016**. Dylid cyflwyno sylwadau pellach ar y cyflwyniadau hyn erbyn **Dyddiad Cau 7, sef 31 Mawrth, 2016**.

Cyhoeddi dogfennaeth

Heddiw, rwyf wedi cymryd y penderfyniad i beidio â chyhoeddi Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft ar gyfer ymgynghori, ac yn lle hynny rwy'n gofyn am safbwyntiau ynghylch GCD drafft diweddaraf yr Ymgeisydd cyflwynwyd ar 19 Chwefror 2016 [REP5-023].

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd. Mae dolen i'r ddogfen hon i'w gweld yn y faner ar dudalen we'r prosiect. Dylid cyflwyno sylwadau ar y dogfennau hyn erbyn **Dyddiad Cau 6, sef 17 Mawrth 2016**. Dylech sicrhau bod unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad ar Oblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd yn cael eu gwahanu'n glir oddi wrth gyflwyniadau eraill.

Statws Mrs a Mr Shaw

Ysgrifennodd Mr a Mrs Shaw at yr Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn am statws Parti â Buddiant yn yr archwiliad yn seiliedig ar fuddiant canfyddedig mewn tir o fewn Terfynau'r Gorchymyn. Roedd cynlluniau'r Gofrestrfa Tir a ddarparwyd yn aneglur ac nid oeddent yn gyfredol, h.y. 2013. Ysgrifennais at yr Ymgeisydd ar 27 Ionawr 2016 ac ar 3 Chwefror 2016 yn gofyn am ei ddealltwriaeth o statws Mr a Mrs Shaw. Ymatebodd yr Ymgeisydd ar 17 Chwefror 2016 gan ddarparu cofrestrau a chynlluniau cyfredol y Gofrestrfa Tir, h.y. 2015 a 2016. Ym marn yr Ymgeisydd, nid oedd gan Mr a Mrs Shaw unrhyw fuddiant mewn tir o fewn Terfynau'r Gorchymyn ac nid oeddent yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau yn adran 102B DC 2008. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n gwrth-ddweud barn yr Ymgeisydd.

At ddibenion a102A DC 2008, nid wyf yn ystyried naill ai Mr neu Mrs Shaw i fod yn berson o fewn un neu fwy o'r categorïau a osodir allan yn a102B DC 2008.

Fodd bynnag, mae Mr a Mrs Shaw yn gallu cyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cais os ydynt yn dymuno. Os byddant yn gwneud hynny, byddaf, ar ôl derbyn unrhyw sylwadau o'r fath, yn ystyried p'un ai i'w derbyn i'r archwiliad ai peidio.

Newidiadau i'r Llyfr o Gyfeirnodau

Mae'r Llyfr o Gyfeirnodau - Diweddariad C [REP5-026] a'r dogen cymharu, Sylwebaeth ar Newidiadau 4.3B i 4.3C, cyflwynwyd ar gyfer Dyddiad Cau 5 [REP5-028], yn dangos nifer o newidiadau i'r leiniau tir a'r Phersonau yr Effeithir Arnynt.

1. Ar gyfer pob newid i'r Phersonau yr Effeithir Arnynt a nodwyd yn y Llyfr o Gyfeirnodau– Diweddariad C [REP5-026], gall yr Ymgeisydd:
 - a) Nodi'r rhesymau ar gyfer y newidiadau i'r Phersonau yr Effeithir Arnynt; os yw

hyn oherwydd nid oes angen y tîr ddim mwy, os gwelwch yn dda ddarparwch gwybodaeth yn esbonio hyn.

- b) Nodi os cysylltir efo'r Phersonau yr Effeithir Arnynt hyn.
- c) Nodi'r sefyllfa hyd yn hyn efo Phersonau yr Effeithir Arnynt gan ddefnyddio'r fframwaith a ddarparwyd yn y Tabl Ymgysylltu a Tîrfeddianwyr [REP5-031].
- ch) Darparu copiau o unrhyw lythyrau i Phersonau yr Effeithir Arnynt ychwanegol sy'n nodi natur y Cais hwn, sut all y Cais effeithio arnynt, y cam mae'r Cais wedi cyrraedd yn yr Archwiliad a sut gall yr unigolion hynny cymryd rhan a dymuno statws yn yr Arholiad o dan a102A o'r Deddf Cynllunio 2008.

Yn ol ch) uchod, os ni chafodd llythyrau eu hanfon, rwy'n gofyn i'r Ymgeisydd i'w hanfon ac i brofi fod llythyr o'r math wedi ei anfon.

2. Rwyf hefyd yn gofyn i'r Ymgeisydd ailymweld a'r cynlluniau tîr [REP5-020 i REP5-022] i gadarnhau ddangosir plot 25 yn glir wedi ei rannu yn y brif cynllun ac hefyd yn yr adran chwyddedig.

Hysbysiad o Wrandawiadau

Ar 3 Chwefror 2016, cyhoeddais benderfyniad gweithdrefnol yn ymwneud â Rheol 13(6) o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010). Mae'r llythyr hwnnw wedi'i atodi fel Atodiad A i'r llythyr hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae pob croeso i chi gysylltu â'r tîm achos.

Yn gywir

Martin Broderick

Martin Broderick
Awdurdod Archwilio

Atodiad A: Penderfyniad Gweithdrefnol

Mae'n bosibl y rhoddir cyngor ynghylch gwneud cais am orchymyn caniatâd datblygu neu wneud sylwadau am gais (neu gais a gynigir). Fodd bynnag, nid yw'r ohebiaeth hon yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eich hun yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei gofnodi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r person neu sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Gwybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.





3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: brechfaconnection@pins.gsi.gov.uk

Western Power Distribution (South
Wales) plc

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020016

Dyddiad: 3 Chwefror 2016

Annwyl Syr/Madam

**Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'i diwygiwyd)
– Rheol 13(6)**

**Cais gan Western Power Distribution (South Wales) plc ar gyfer Gorchymyn
yn rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cysylltiad Coedwig Brechfa**

Hysbysiad o wrandawiadau sydd i'w cynnal ar 10 ac 11 Chwefror 2016

Ar 11 Ionawr 2016, fel yr Awdurdod Archwilio, hysbysais bob parti â buddiant, unigolion yr effeithir arnynt a phartion statudol cofrestredig am y gwrandawiadau sydd i'w cynnal. Yn ogystal, pennwyd dyddiadau gwrandawiadau posibl yn yr amserlen archwilio wreiddiol fel y'i hanfonwyd at bob parti ar 13 Hydref 2015. Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen ar y wefan a thynnwyd sylw atynt ar faner y wefan.

Ar 3 Chwefror 2016, rhoddwyd gwybod i'r Arolygiaeth Gynllunio gan yr Ymgeisydd, Western Power Distribution, nad oedd wedi gallu cyflawni ei ddyletswydd o dan reol 13(6) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) (2010) (EPR) o ran hysbysu ynghylch gwrandawiadau sydd i'w cynnal. O dan y ddyletswydd honno, dylai'r Ymgeisydd:

- (a) gosod a chadw hysbysiad o'r gwrandawriad mewn lle amlwg neu (yn achos cais am orchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwaith llinellau ar y tir sy'n fwy na 5 cilometr o hyd) ar gyfnodau o ddim mwy na 5 cilometr ar y tir, neu mor agos ag sy'n rhesymol ymarferol at y tir, y mae a wnelo'r cais ag ef;
- (b) gosod a chadw hysbysiad o'r gwrandawriad mewn un neu fwy o leoedd lle bydd hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu gosod fel arfer yn yr ardal y mae'r cynigion yn y cais yn ymwneud â hi; a
- (c) chyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawriad drwy hysbyseb leol yn yr ardal y bydd y cynigion yn y cais yn effeithio arni

Fel y cyfryw, fel yr Awdurdod Archwilio, rwyf wedi penderfynu, o dan reol 13(6) yr

EPR, i ddefnyddio fy nisgresiwn i gyfarwyddo nad oes angen i'r Ymgeisydd gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn bod yr Ymgeisydd yn cydymffurfio â Rheol 13(6) (a) a (b) hynny yw, gosod a chadw hysbysiad o wrandawriad mewn lle amlwg neu (yn achos cais am orchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwaith llinellau ar y tir sy'n fwy na 5 cilometr o hyd) ar gyfnodau o ddim mwy na 5 cilometr ar y tir, neu mor agos ag sy'n rhesymol ymarferol at y tir, y mae a wnelo'r cais ag ef, a gosod a chadw hysbysiad o'r gwrandawriad mewn un neu fwy o leoedd lle bydd hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu gosod fel arfer yn yr ardal y mae'r cynigion yn y cais yn ymwneud â hi.

Nid yw hwn yn benderfyniad a wnaed yn ysgafn, ac mae wedi'i wneud o ganlyniad i ystyried y byddai gohirio'r gwrandawriadau yn achosi materion posibl i'r partion hynny sydd eisoes wedi cadarnhau y byddant yn bresennol, a'r effeithiau ôl-ddilynol ar yr amserlen archwilio. Nid yw'r penderfyniad gweithdrefnol hwn yn effeithio ar yr amserlen archwilio mewn unrhyw ffordd ac nid oes angen i chi ymateb iddo.

Os oes gennych ymholiadau pellach, mae pob croeso i chi gysylltu â'r tîm achosion.

Yr eiddoch yn gywir

Martin Broderick

Martin Broderick
Awdurdod Archwilio

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud cynrychiolaethau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.